Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio’r Rheolau Sefydlog:

## Newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025

Hydref 2025

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio’r Rheolau Sefydlog.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 sydd:

- yn dwyn ynghyd ac yn ffurfioli’r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru; ac
- yn rhoi sail statudol i’r cysyniad o ‘offeryn statudol Cymreig’.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio’r Rheolau Sefydlog a nodir yn Atodiad A. Mae’r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

1. Y cefndir ..... 3

2. Y newidiadau sydd eu hangen i'r Rheolau Sefydlog ..... 4

Rhoi sail statudol i'r cysyniad o 'offeryn statudol Cymreig'. ..... 4

Gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth ..... 5

3. Casgliadau'r Pwyllgor Busnes ..... 6

Diffinio 'offeryn statudol' ..... 6

Diweddaru'r derminoleg ..... 7

Rheol Sefydlog 21.2 ..... 8

Gweithdrefn annilysu'r Senedd ..... 10

Gweithdrefn gymeradwyo a chadarnhau'r Senedd ..... 10

4. Amser ..... 11

5. Penderfyniad ..... 12

Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol ..... 13

Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd ..... 19

# 1. Y cefndir

**1.** Cafodd Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2025. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2025 yn mewnosod Rhan 2A newydd yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") i wneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru.

**2.** Mae Rhan 2A newydd o Ddeddf 2019 yn gosod y cysyniad o 'offeryn statudol Cymreig' ar sail statudol. At hynny. mae'n nodi ac yn rhoi enw (neu label) i rai mathau o weithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru y mae'n ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol Cymreig. Mae'r gweithdrefnau hyn, a'u henwau, wedi'u darparu yn Neddf 2025 fel a ganlyn:

- Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd: ni ellir gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon oni bai bod drafft o'r offeryn statudol Cymreig wedi'i osod gerbron y Senedd, a'i gymeradwyo wedi hynny gan y Senedd. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd fel y 'weithdrefn gadarnhaol'.

- Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd: gall Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, a'i gosod wedyn gerbron y Senedd, ond ni all barhau i gael effaith na dod i rym yn y dyfodol oni bai bod y Senedd wedi hynny yn ei chadarnhau drwy benderfyniad. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd fel y 'weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed''.

- Gweithdrefn annilysu'r Senedd: gall Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, a'i gosod wedyn gerbron y Senedd. Fodd bynnag, os bydd y Senedd yn penderfynu, cyn diwedd 40 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth ger ei bron, na ddylai'r ddeddfwriaeth barhau i gael effaith, ni fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith, mwyach. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd fel y 'weithdrefn negyddol'.

**3.** Felly, mae angen gwneud nifer o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynir gan Ddeddf 2025.

# 2. Y newidiadau sydd eu hangen i'r Rheolau Sefydlog

## Rhoi sail statudol i'r cysyniad o 'offeryn statudol Cymreig'.

4. Ar hyn o bryd (cyn i'r rhannau perthnasol o Ddeddf 2025 ddod i rym), mae offerynnau y cyfeirir atynt fel 'offerynnau statudol Cymreig' yn rhan o'r hyn a elwir (yn anffurfiol) yn 'gyfres o offerynnau statudol y DU'. Fel y dywed Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil (sydd bellach wedi dod yn Ddeddf):

> *Gelwir Offerynnau Statudol a wneir yng Nghymru yn "Offerynnau Statudol Cymreig" er nad oes offeryn o'r fath yn bodoli mewn deddfwriaeth.*[1]

5. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2025 yn mewnosod Rhan newydd 2A yn Neddf 2019, ac mae adran newydd 37A o'r Rhan newydd honno yn sefydlu 'offerynnau statudol Cymreig' fel cysyniad cyfreithiol.

6. O'r herwydd, mae angen diweddaru'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r ffaith bod dau fath o offeryn statudol y gellir eu gosod gerbron y Senedd bellach:

- offerynnau statudol Cymreig (ac offerynnau statudol Cymreig drafft) fel y'u diffinnir yn adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019; ac
- offerynnau statudol (ac offerynnau statudol drafft) fel y diffinnir "statutory instrument" yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946.

7. Yn Rheolau Sefydlog presennol y Senedd, defnyddir y term "offeryn statudol" 82 o weithiau.

8. Mae'r term yn rhan o sylwedd nifer o Reolau Sefydlog, gan gynnwys:

- Rheol Sefydlog 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;
- Rheol Sefydlog 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd); a

[1] Llywodraeth Cymru, Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025: Memorandwm Esboniadol, Hydref 2024

- Rheol Sefydlog 30A – Cydsyniad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a Wneir gan Weinidogion y DU.

9. Rhaid diweddaru'r Rheolau Sefydlog er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Senedd yn gymwys yn y modd cywir i'r ddau fath o offeryn statudol y gellir eu gosod gerbron y Senedd, pan ddaw'r darpariaethau perthnasol i rym.

## Gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth

10. Fel y nodir uchod, mae Rhan newydd 2A o Ddeddf 2019 yn codeiddio gweithdrefnau presennol y Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth drwy roi enwau (neu labeli) ffurfiol iddynt:

- defnyddir 'gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd' yn lle'r gweithdrefnau penderfyniad 'cadarnhaol drafft' a 'chadarnhaol' gynt;
- defnyddir 'gweithdrefn gadarnhau'r Senedd' yn lle 'gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed''; a
- defnyddir 'gweithdrefn annilysu'r Senedd' yn lle'r gweithdrefnau penderfyniad 'negyddol drafft' a 'negyddol'.

11. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2025 yn newid sylwedd gweithdrefnau'r Senedd eu hunain.

12. Yn Rheolau Sefydlog presennol y Senedd, mae saith enghraifft y mae angen eu diweddaru yn sgil enwau (neu labeli) newydd gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru a gyflwynir gan Ddeddf 2025; rhoddir crynodeb ohonynt isod (ac maent wedi'u cynnwys yn llawn yn Atodiad A):

- Is-bennawd Rheol Sefydlog 27.2 (a'r eitem gyfatebol yn yr adran Cynnwys) - "Cynnig ar gyfer Dirymu (Gweithdrefn Penderfyniad Negyddol)";
- Is-bennawd Rheol Sefydlog 27.5 (a'r eitem gyfatebol yn yr adran Cynnwys)[2] – "Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol)";

[2] Yn nhestun Saesneg y Rheolau Sefydlog, nid yw'r eitem gyfatebol yn yr adran Cynnwys ar gyfer Rheol Sefydlog 27.5 ar hyn o bryd yn cyfateb i'w his-bennawd. Yn yr adran Cynnwys, fe'i gelwir yn "Positive Resolution Procedure", yn hytrach nag "Affirmative Resolution Procedure".

- Rheol Sefydlog 21.3C(i) – y "weithdrefn penderfyniad negyddol";
- Rheol Sefydlog 27.9B(i) – y "weithdrefn gadarnhaol";
- Rheol Sefydlog 27.9B(ii) – y "weithdrefn penderfyniad negyddol".

**13.** Yn sgil Deddf 2025, mae hefyd angen diweddaru cyfeiriad a wneir at "Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd)" yn Rheol Sefydlog 21.2(xi) er mwyn cyfrif am y newidiadau i'r gofynion o ran rhoi hysbysiad i'r Llywydd.

# 3. Casgliadau'r Pwyllgor Busnes

**14.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog yn sgil Deddf 2025 yn ei gyfarfod ar 9 Hydref.

## Diffinio 'offeryn statudol'

**15.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnig y dylid ychwanegu diffiniad o 'offeryn statudol' at yr adran 'Dehongli' yn y Rheolau Sefydlog.

**16.** Mae adran newydd 37A o Ddeddf 2019 yn diffinio 'offeryn statudol Cymreig' yn y gyfraith fel dogfen sy'n cynnwys 'is-ddeddfwriaeth Cymru' a wneir wrth arfer pŵer y mae'n ofynnol gan ddeddfiad ei arfer drwy offeryn statudol. At y dibenion hyn, diffinnir 'is-ddeddfwriaeth Cymru' fel is-ddeddfwriaeth nad yw'n cael ei gwneud <u>ond</u> gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig. Felly, pan fydd Deddf 2025 wedi'i chychwyn, bydd 'offeryn statudol Cymreig' yn gysyniad cyfreithiol ar ei ben ei hun, ar wahân i offeryn statudol fel y diffinnir "statutory instrument" yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946.

**17.** Roedd y Pwyllgor o'r farn, oherwydd bod cynifer o gyfeiriadau at "offeryn statudol" yn y Rheolau Sefydlog, mai'r ffordd symlaf o fynd ati fyddai mewnosod diffiniad o 'offeryn statudol' yn yr adran Dehongli. Roedd y Pwyllgor o blaid diffiniad a fyddai'n gymwys yn yr un modd i bob cyfeiriad at "offeryn statudol" yn y Rheolau Sefydlog ac a fyddai'n gweithio fel y bo'n gymwys mewn unrhyw gyd-destun.

**18.** Mae hyn yn osgoi'r angen i ailystyried pob enghraifft o'r term yn y Rheolau Sefydlog a phenderfynu a ddylai gyfeirio at offeryn statudol, neu at offeryn statudol Cymreig.

**19.** Mae angen i'r diffiniad cyffredinol o ‘offeryn statudol’ yn y Rheolau Sefydlog fod yn gymwys yn yr un modd i offerynnau statudol Cymreig (fel y'u diffinnir yn adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019), yn ogystal ag offerynnau statudol fel y diffinnir “statutory instrument” yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y bo'n gymwys.

**20.** Nododd y Pwyllgor mai offerynnau statudol Cymreig (h.y. y rhai sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth Cymru a wneir gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau Cymreig datganoledig) fydd y rhan fwyaf o'r offerynnau statudol a osodir gerbron y Senedd. Gan hynny, ystyriodd gynnig y term ‘offeryn statudol Cymreig’ i gyfeirio at y ddau fath o offeryn statudol. Daeth i’r casgliad, am y rhesymau a nodir isod, y byddai'r term generig ‘offeryn statudol’ yn derm torfol mwy priodol i gwmpasu'r ddau fath o offeryn statudol.

**21.** Wrth wneud y penderfyniad hwn, nododd y Pwyllgor fod y diffiniad cyfreithiol o ‘offeryn statudol Cymreig’ wedi'i gyfyngu i is-ddeddfwriaeth Cymru nad yw’n cael ei gwneud ond gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod Cymreig datganoledig. Fodd bynnag, mae'r Rheolau Sefydlog (a Rheol Sefydlog 27 yn benodol) yn darparu ar gyfer gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer “unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft”. Mae hyn yn cynnwys offerynnau ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a fydd o reidrwydd yn cynnwys darpariaeth a wneir gan bersonau heblaw Gweinidogion Cymru neu awdurdodau Cymreig datganoledig.

**22.** Felly, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod risg o beri dryswch pe defnyddid y term ‘offeryn statudol Cymreig’ fel diffiniad a fyddai’n gymwys i bob math o offeryn statudol. At hynny, daeth i'r casgliad y byddai'n well osgoi sefyllfa lle’r oedd diffiniadau gwahanol o'r term 'offeryn statudol Cymreig' yn y gyfraith ac yn Rheolau Sefydlog y Senedd. O ddefnyddio’r dull hwn, byddai wedi bod angen diwygio 82 enghraifft o “offeryn statudol” yn y Rheolau Sefydlog hefyd, a fyddai wedi peri'r risgiau a nodir uchod.

**23.** Drwy gynnwys diffiniad cyffredinol o ‘offeryn statudol’ yn yr adran Dehongli, ni fydd angen diwygio Rheolau Sefydlog presennol y Senedd ymhellach er mwyn sicrhau bod ei gweithdrefnau'n gymwys i'r ddau fath o offeryn statudol y gellir eu gosod pan ddaw'r darpariaethau perthnasol i rym.

## Diweddaru’r derminoleg

**24.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnig y canlynol:

- Dylid rhoi "gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd" yn lle pob cyfeiriad at "gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol" (ac, yn y testun Saesneg, dylid rhoi "Senedd approval procedure" yn lle pob cyfeiriad at "affirmative resolution procedure" neu "positive resolution procedure", yn ôl y digwydd); a

- Dylid rhoi "gweithdrefn annilysu'r Senedd" yn lle pob cyfeiriad at "gweithdrefn penderfyniad negyddol".

**25.** Fel yr esbonnir uchod, mae Deddf 2025 yn ffurfioli ac yn labelu gweithdrefnau'r Senedd mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2025 wedi'i drafftio fel ei bod yn gymwys i ddeddfiadau cyn-gychwyn (h.y. deddfiadau a ddeddfwyd cyn i'r newidiadau a wneir gan Ddeddf 2025 ddod i rym). Effaith hyn yw, pan fo deddfiad cyn-gychwyn yn cyfeirio at weithdrefn ar gyfer cymeradwyo neu annilysu offerynnau statudol, y dylid dehongli'r rhain fel pe baent yn gyfeiriadau at weithdrefnau newydd y Senedd a'r labeli cysylltiedig. Felly, cytunodd y Pwyllgor i gynnig y dylid diweddaru'r holl gyfeiriadau presennol at weithdrefnau ar gyfer offerynnau statudol yn y Rheolau Sefydlog a defnyddio'r labeli a'r derminoleg newydd yn eu lle.

**26.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, ystyriodd y Pwyllgor y ffaith bod y gweithdrefnau sydd wedi'u labelu o'r newydd wedi'u cymhwyso gydag addasiadau i offerynnau penodol. Er enghraifft, effaith Atodlen 1B i Ddeddf 2025 yw y bydd offerynnau statudol ar y cyd a rhai cyfansawdd cyn ac ar ôl deddfu yn dod o dan ambarél gweithdrefnau'r Senedd wedi'u labelu o'r newydd. Fodd bynnag, am resymau technegol a deongliadol, mae'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u haddasu gan Ddeddf 2025 i sicrhau eu bod yn ymarferol.

**27.** Er gwaethaf hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n briodol o hyd cyfeirio at y gweithdrefnau wedi'u labelu o'r newydd ym mhenawdau Rheolau Sefydlog 27.2 a 27.5.

## Rheol Sefydlog 21.2

**28.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnig y dylid diwygio'r cyfeiriad at adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn Rheol Sefydlog 21.2(xi) i adlewyrchu'r ddarpariaeth wedi'i diweddaru yn adrannau 37E(6) a 37F(4) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (fel y'i haddaswyd gan Ddeddf 2025), a pharagraffau 14(6) a 15(3) o Atodlen 1B a pharagraffau 11(6) a 12(3) o Atodlen 1C iddi.

**29.** Mae Rheol Sefydlog 21.2 yn rhestru ar ba seiliau y mae rhaid i'r pwyllgor cyfrifol (o dan Reol Sefydlog 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol) gyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

**30.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 21.2(xi) yn nodi bod rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad pan fo'n "ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd)".

**31.** Mae angen diweddaru'r cyfeiriad hwn at Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 fel ei fod yn cyfeirio at ddarpariaethau perthnasol Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (fel y'i haddaswyd gan Ddeddf 2025). Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nad yw sylwedd swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21 yn ei chyfanrwydd wedi newid.

**32.** Mae angen y diwygiad yn anad dim i adlewyrchu adran newydd 37E(6) o Ddeddf 2019. O dan y ddarpariaeth hon, os na osodir offeryn statudol Cymreig sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd gerbron y Senedd o leiaf 21 o ddiwrnodau cyn iddo ddod i rym, rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi eglurhad i'r Llywydd. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd y mae Deddf 2025 wedi'i strwythuro, mae angen y diwygiad hwn hefyd i adlewyrchu gwahanol iteriadau a chymwysiadau gweithdrefn annilysu'r Senedd, gan gynnwys ar gyfer:

- Offerynnau ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd – o dan baragraffau 14(6) a 15(3) o Atodlen newydd 1B i Ddeddf 2019; a
- Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor – o dan baragraffau 11(6) a 12(3) o Atodlen 1C i Ddeddf 2019.

**33.** Mae angen y diwygiad hefyd i adlewyrchu adran newydd 37F(4) o Ddeddf 2019. O dan adran newydd 37F, mae gofynion newydd mewn perthynas ag offerynnau 'dim gweithdrefn' penodol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad o dan is-adran (4) i'r awdurdod cyfrifol hysbysu'r Llywydd pan na osodwyd offeryn statudol Cymreig perthnasol cyn iddo ddod i rym.

## Gweithdrefn annilysu'r Senedd

**34.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnig y dylid diwygio Rheol Sefydlog 27.2 i adlewyrchu adran newydd 37E o Ddeddf 2019, ac effaith Atodlenni 1A, 1B ac 1C iddi, a fewnosodir gan adran 1 o Ddeddf 2025.

**35.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 27.2 yn cymhwyso'r 'weithdrefn penderfyniad negyddol' i offerynnau 'negyddol' ac offerynnau 'negyddol drafft'.

**36.** Effaith Deddf 2025 yw cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng offerynnau 'negyddol' ac offerynnau 'negyddol drafft', ac i bob pwrpas gyfuno'r offerynnau perthnasol mewn un 'weithdrefn annilysu'r Senedd' newydd o dan adran newydd 37E o Ddeddf 2019.

**37.** O dan y weithdrefn hon, caiff y ddeddfwriaeth ei gwneud gan y person sydd â'r pŵer i'w gwneud, caiff ei gosod gerbron y Senedd a daw i rym. Fodd bynnag, os bydd y Senedd yn penderfynu (drwy benderfyniad), cyn diwedd 40 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth ger ei bron, na ddylai'r ddeddfwriaeth barhau i gael effaith, ni fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith, mwyach.

**38.** Bydd gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys i bob offeryn a osodir yn y Senedd o 1 Ionawr ymlaen, y mae ei riant-ddeddfiad yn darparu ei fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon. Fodd bynnag, effaith Atodlenni newydd 1A, 1B ac 1C i Ddeddf 2019, hefyd, yw cymhwyso'r weithdrefn hon i offerynnau a wnaed o dan ddeddfiadau a wnaed cyn i Ran 1 o Ddeddf 2025 ddod i rym (gan gynnwys offerynnau ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor).

## Gweithdrefn gymeradwyo a chadarnhau'r Senedd

**39.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnig y dylid diwygio Rheol Sefydlog 27.2 i adlewyrchu adrannau newydd 37D a 37E o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac effaith Atodlenni 1A, 1B ac 1C iddi, a fewnosodir gan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

**40.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 27.5(i), (ii), a (iii) yn darparu ar gyfer y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, y weithdrefn gadarnhaol a'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', yn y drefn honno.

**41.** Effaith Deddf 2025 yw cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng offerynnau 'cadarnhaol drafft' ac offerynnau 'cadarnhaol', a chyfuno'r offerynnau perthnasol mewn un 'weithdrefn gymeradwyo'r Senedd' newydd o dan adran newydd 37C o Ddeddf 2019.

**42.** O dan y weithdrefn hon dim ond os yw drafft o offeryn statudol Cymreig wedi'i osod gerbron y Senedd, ac wedi'i gymeradwyo ganddi wedi hynny, y gellir gwneud is-ddeddfwriaeth. Cymeradwyir yr offeryn drwy benderfyniad (yn yr achos hwn, penderfyniad yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn).

**43.** Ar hyn o bryd, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn cyfeirio'n benodol at y weithdrefn 'gadarnhaol 'gwnaed''. Mae offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn 'gadarnhaol 'gwnaed'' yn offeryn a wnaed ond y mae rhaid ei gymeradwyo o fewn y cyfnod a bennir yn y deddfiad er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. At ddibenion y Rheolau Sefydlog, mae'r weithdrefn hon wedi'i hadlewyrchu ar hyn o bryd yn Rheol Sefydlog 27.5(iii) o dan y pennawd 'cynnig ar gyfer cymeradwyo'. Mae Deddf 2025 yn rhoi enw newydd i'r weithdrefn hon, sef 'gweithdrefn gadarnhau'r Senedd'.

**44.** Yn ymarferol, mae'r gweithdrefnau a elwir ar hyn o bryd yn 'gadarnhaol' ac yn 'gadarnhaol 'gwnaed'' ill dwy yn gofyn am gynnig ar gyfer cymeradwyo yn y Senedd. Nid yw hyn wedi newid o dan Ddeddf 2025, er bod y gweithdrefnau wedi'u hailenwi.

**45.** Fel gydag offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn annilysu, mae'r Atodlenni newydd i Ddeddf 2019 yn cymhwyso'r gweithdrefnau cymeradwyo a chadarnhau newydd i bob deddfiad perthnasol, gan gynnwys y rhai a ddeddfwyd cyn i ddarpariaethau Deddf 2019 ddod i rym (fel y disgrifir ym mharagraff 38 uchod).

# 4. Amser

**46.** Er mwyn sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'n briodol y darpariaethau yn Neddf 2019 (fel y'u diwygir pan ddaw Rhan 1 o Ddeddf 2025 i rym ar 1 Ionawr 2026), mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r newidiadau a nodir yn Atodiad A ddod i rym ar 1 Ionawr 2026. Bydd y newidiadau'n berthnasol i offerynnau a wneir, neu a osodir mewn drafft, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

**47.** Gall offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol bresennol barhau i gael eu gwneud a'u gosod cyn 1 Ionawr, ond yn achos ambell un, ni fydd

y cyfnod o ddirymu posibl yn dod i ben tan ar ôl y dyddiad hwnnw; byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol bresennol.

**48.** Yn yr un modd, bydd unrhyw offerynnau a wnaed ac a osodwyd yn ddarostyngedig i'r 'weithdrefn gadarnhaol gwnaed' bresennol cyn 1 Ionawr, yn parhau i gael eu hystyried gan y Senedd o dan y weithdrefn bresennol os bydd y cynnig i gymeradwyo yn digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

**49.** Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru ddechrau gosod offerynnau drafft cyn 1 Ionawr 2026 (yn unol â'r Rheolau Sefydlog presennol) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol bresennol. Byddant, felly, yn cael eu hystyried gan y Senedd o dan y weithdrefn wreiddiol ond, os cânt eu cymeradwyo, cânt eu gwneud yn offerynnau statudol Cymreig.

**50.** Nid oes angen nodi'r trefniadau trosiannol dros dro hyn yn y Rheolau Sefydlog (gan eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau cychwyn arfaethedig ar gyfer Rhan 1 o Ddeddf 2025). [Mater i'r Llywydd benderfynu arno fydd unrhyw gwestiynau ynghylch gweithrediad effeithiol y Rheolau Sefydlog yn ystod y cyfnod pontio byr hwn.]

# 5. Penderfyniad

**51.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid newid y Rheolau Sefydlog, ac y dylai'r newidiadau hynny ddod i rym o 1 Ionawr 2026, i adlewyrchu Rhan 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 pan ddaw i rym ar y dyddiad hwnnw. Mae'r newidiadau arfaethedig (a nodir yn Atodiad A) yn:

- Mewnosod diffiniad o "offeryn statudol" yn y Rheolau Sefydlog, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Senedd yn gymwys yn y modd cywir i bob math o offeryn statudol y caniateir ei osod;
- Diwygio Rheolau Sefydlog 21 a 27 i adlewyrchu'r enwau (neu'r labeli) newydd ar y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag offerynnau statudol a gyflwynir gan Ddeddf 2025.

**52.** Ar 9 Hydref 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| | | |
|---|---|---|
| **DEHONGLI** | | |
| Ystyr **“offeryn statudol”** yw ‘offeryn statudol Cymreig’ fel y'i diffinnir yn adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, neu ‘offeryn statudol’ fel y diffinnir “statutory instrument” yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y bo’n gymwys; | | Ychwanegu dehongliad newydd<br><br>Gan ystyried Rhan 1 o Ddeddf 2025, a'r ffaith ei bod yn rhoi sail statudol i'r cysyniad o “offeryn statudol Cymreig”, mae'r mewnosodiad arfaethedig yn diffinio “offeryn statudol” fel bod gweithdrefnau'r Senedd yn gymwys yn y modd cywir i'r ddau fath o offeryn statudol, fel y bo’n gymwys, y caniateir eu gosod gerbron y Senedd, h.y. ‘offeryn statudol Cymreig’ fel y'i diffinnir yn adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, neu ‘offeryn statudol’ fel y diffinnir “statutory instrument” yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946. |
| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
| Swyddogaethau | | Cadw'r is-bennawd |
| 21.2(xi) | Rhaid i bwyllgor cyfrifol ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd a chyflwyno adroddiad ar a ddylai’r Senedd roi sylw | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:<br><br>(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;<br><br>(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;<br><br>(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;<br><br>(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;<br><br>(v) bod angen esboniad pellach o'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;<br><br>(vi) bod ei ddrafftio yn ymddangos yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â chyflawni gofynion statudol;<br><br>(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;<br><br>(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;<br><br>(ix) nad yw wedi'i wneud, nac i'w wneud, yn Saesneg yn ogystal ag yn Gymraeg; | 21.2(xi) ac yn rhoi cyfeiriad wedi'i ddiweddaru at ddarpariaethau perthnasol Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei le.<br><br>Gwneir hyn er mwyn adlewyrchu adrannau newydd 37E(6) a 37F(4) o Ddeddf 2019, a pharagraffau 14(6) a 15(3) o Atodlen 1B a pharagraffau 11(6) a 12(3) o Atodlen 1C iddi. |

| | | |
|---|---|---|
| | (x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd; neu<br><br>(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan ~~adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i haddaswyd)~~adrannau 37E(6) a 37F(4) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a'r darpariaethau cyfatebol yn Atodlenni 1B ac 1C iddi. | |
| **21.3C** | Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:<br><br>(i) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch pam y mae'r llywodraeth o'r farn y dylai~~'r weithdrefn penderfyniad negyddol~~ gweithdrefn annilysu’r Senedd fod yn gymwys;<br><br>(ii) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau;<br><br>(iii) a fu ymgynghoriad digonol ar y rheoliadau;<br><br>(iv) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch effaith bosibl y rheoliadau ar gydraddoldeb a hawliau dynol;<br><br>(v) a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol; a<br><br>(vi) unrhyw fater arall sy’n briodol ym marn y pwyllgor. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at y weithdrefn “penderfyniad negyddol”, ac yn rhoi gweithdrefn “annilysu’r Senedd” yn ei le, sy’n adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan Ran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. |

<table>
<tr><th colspan="3">RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy’n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynnig ar gyfer ~~Dirymu~~Annilysu (Gweithdrefn Penderfyniad NegyddolAnnilysu’r Senedd)</td><td>Diwygio'r is-bennawd<br><br>Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at y weithdrefn “Penderfyniad Negyddol”, ac yn rhoi gweithdrefn “Annilysu’r Senedd” yn ei le, sy’n adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan Ran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.</td></tr>
<tr><td>27.2</td><td>Yn achos unrhyw offeryn statudol<br><br>~~(i) sy’n agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y Senedd; neu~~<br>~~(ii) sy’n cael ei osod ar ffurf drafft ond nad yw’n gallu cael ei wneud os caiff y drafft ei anghymeradwyo,~~<br><br>y mae gweithdrefn annilysu’r Senedd yn gymwys iddo, caiff y Senedd, heb fod yn hwyrach na 40 diwrnod ar ôl i’r offeryn gael ei osod, benderfynu ~~i~~ddirymuannilysu’r offeryn neu, yn ôl fel y digwydd, i anghymeradwyo’r drafft.</td><td>Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu adran newydd 37E o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac effaith Atodlenni 1A, 1B ac 1C iddi, a fewnosodir gan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefnau ~~Penderfyniad Cadarnhaol~~Cymeradwyo a Chadarnhau’r Senedd)</td><td>Diwygio'r is-bennawd<br><br>Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at y weithdrefn “Penderfyniad Cadarnhaol”, ac yn rhoi “Gweithdrefnau Cymeradwyo a Chadarnhau'r Senedd” yn ei le, sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan Ran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **27.5** | ~~Yn achos unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd nad yw, oni bai bod y Senedd yn ei gymeradwyo drwy gynnig, yn gallu:~~<br>~~(i) cael ei wneud;~~<br>~~(ii) dod i rym; neu~~<br>~~(iii) parhau mewn grym ar ôl y cyfnod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn,~~<br>~~caiff~~Caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig ~~o dan Reol 27.5 i gymeradwyo'r offeryn neu'r offeryn drafft i’r Senedd gymeradwyo~~ i’r Senedd gymeradwyo:<br>(i) offeryn statudol drafft y mae gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd yn gymwys iddo, neu<br>(ii) offeryn statudol y mae gweithdrefn gadarnhau’r Senedd yn gymwys iddo. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu adrannau newydd 37D a 37E o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac effaith Atodlenni 1A, 1B ac 1C iddi, a fewnosodir gan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. |
| **27.9B** | Os:<br>(i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai'~~r weithdrefn gadarnhaol~~ gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a<br>(ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yw'~~r weithdrefn penderfyniad negyddol~~ gweithdrefn annilysu’r Senedd; | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhoi cyfeiriadau at weithdrefn “gymeradwyo’r Senedd” a gweithdrefn “annilysu’r Senedd” yn lle cyfeiriadau at y weithdrefn “gadarnhaol” a'r weithdrefn “negyddol”, yn y drefn honno. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan Ran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| | rhaid i'r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1 esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y pwyllgor. | |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

DEHONGLI

ystyr **“offeryn statudol”** yw ‘offeryn statudol Cymreig’ fel y'i diffinnir yn adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, neu ‘offeryn statudol’ fel y diffinnir “statutory instrument” yn adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y bo’n gymwys;

RHEOL SEFYDLOG 21 – **Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Swyddogaethau

21.2(xi) Rhaid i bwyllgor cyfrifol ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd a chyflwyno adroddiad ar a ddylai’r Senedd roi sylw arbennig i'r offeryn neu’r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi’i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i’w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy’n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen esboniad pellach o’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) bod ei ddrafftio yn ymddangos yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â chyflawni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu’r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud, nac i'w wneud, yn Saesneg yn ogystal ag yn Gymraeg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adrannau 37E(6) a 37E(4) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a'r darpariaethau cyfatebol yn Atodlenni 1B ac 1C iddi.

21.3C Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:

(i) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch pam y mae'r llywodraeth o'r farn y dylai gweithdrefn annilysu'r Senedd fod yn gymwys;

(ii) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau;

(iii) a fu ymgynghoriad digonol ar y rheoliadau;

(iv) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch effaith bosibl y rheoliadau ar gydraddoldeb a hawliau dynol;

(v) a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol; a

(vi) unrhyw fater arall sy'n briodol ym marn y pwyllgor.

## RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)

### Cynnig ar gyfer Annilysu (Gweithdrefn Annilysu'r Senedd)

27.2 Yn achos unrhyw offeryn statudol y mae gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys iddo, caiff y Senedd, heb fod yn hwyrach na 40 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod, benderfynu annilysu'r offeryn.

### Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefnau Cymeradwyo a Chadarnhau'r Senedd)

27.5 Caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig i'r Senedd gymeradwyo:

(i) offeryn statudol drafft y mae gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys iddo, neu

(ii) offeryn statudol y mae gweithdrefn gadarnhau'r Senedd yn gymwys iddo.

### Offerynnau Statudol Drafft y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddynt

27.9B Os:

(i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a

(ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yw gweithdrefn annilysu'r Senedd;

rhaid i'r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1 esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y pwyllgor.